

Cyngor Sir Ynys Môn

Adroddiad i:	PWYLLGOR GWAITH
Dyddiad:	22 MEDI 2026
Pwnc:	MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW, CHWARTER 1 2026/27
Deilydd Portffolio:	CYNG ROBIN WILLIAMS – DIRPRWY ARWEINYDD A DEILYDD PORTFFOLIO CYLLID, BUSNES CORFFORAETHOL A PHROFIAD Y CWSMER
Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:	MARC JONES - CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151
Awdur yr Adroddiad:	BETHAN HUGHES OWEN - RHEOLWR GWASANAETHAU CYFRIFEG 01248 752663 BethanOwen2@ynysmon.llyw.cymru
Aelodau Lleol:	DDIM YN BERTHNASOL

A - Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau

Argymhellion

- (i) Nodi'r sefyllfa a nodir yn Atodiadau A, B ac C mewn perthynas â pherfformiad ariannol yr Awdurdod hyd yma a'r alldro a ragwelir ar gyfer 2026/27;
- (ii) Nodi'r crynodeb o gyllidebau wrth gefn ar gyfer 2026/27, y manylir arnynt yn Atodiad CH;
- (iii) Nodi canlyniadau monitro costau asiantaeth ac ymgynghorwyr yn 2026/27 yn Atodiadau D a DD;
- (iv) Nodi canlyniadau monitro gwariant y Gronfa Cost Newid yn 2026/27 yn Atodiad E.

Rheswm

Mae'r sefyllfa gyffredinol a ragwelir ar ddiwedd y chwarter cyntaf yn awgrymu y bydd tanwariant o £2.114m (1.30%) yn y gyllideb refeniw erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol gwasanaethau'r Cyngor ar ddiwedd chwarter 1, 30 Mehefin 2026. Mae'r sefyllfa a ragwelir ar gyfer y flwyddyn gyfan yn cael ei chrynhai hefyd. Dylid nodi bod rhagweld y sefyllfa derfynol ar ddiwedd y flwyddyn ar ddiwedd chwarter 1 yn anodd, a gall y sefyllfa newid yn sylweddol wrth i weddill y flwyddyn ariannol fynd rhagddi. Mae rhai meysydd allweddol sy'n anodd eu rhagdybio a'u rhagweld mor gynnar â hyn yn y flwyddyn, a'r meysydd allweddol hynny yw:-

1. Newidiadau yn y ceisiadau am wasanaethau sy'n cael eu harwain gan y galw ac, yn bennaf, lleoli plant mewn gofal, y galw am wasanaethau oedolion, digartrefedd, cludiant ysgol ac addysg allsirol.
2. Derbyn cyllid grant ychwanegol nad oedd ei ddisgwyl yn ystod y flwyddyn.
3. Gwariant unwaith ac am byth nad oedd wedi cael ei rhagweld.
4. Anawsterau recriwtio a chadw staff sy'n arwain at fwy o swyddi gweigion nag a ragwelwyd.
5. Dyfarniadau cyflog nad ydynt wedi cael eu cytuno eto, ar gyfer staff NJC ac athrawon.

O ganlyniad i'r sefyllfa a ragwelir a newidiadau eraill, bydd gan y Cyngor falans cyffredinol o £17.704m (8.62% o gyllideb refeniw net 2026/27) ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, ac mae hyn £7.437m yn uwch na'r isafswm sy'n cael ei argymhell i'r Cyngor.

Oherwydd bod y rhagolwg ariannol cyffredinol yn darogan tanwariant ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, a chan fod disgwyl i'r balansau cyffredinol fod yn uwch na'r isafswm sy'n cael ei argymhell, nid oes angen i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo unrhyw gamau unioni.

B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?

Amherthnasol - Adroddiad monitro yw hwn ac nid yw'n cynnwys opsiynau i'w hystyried.

C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Mae monitro cyllideb y Cyngor yn fater sydd wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.

Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ydi

D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Ydi, ond mae unrhyw newidiadau o gymharu â'r gyllideb a gymeradwywyd yn cael eu nodi yn yr adroddiad.

Dd - Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol)

1. Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion hir dymor fel ynys?

Mae'r adroddiad hwn at ddibenion monitro yn unig ac mae'n cael ei ddefnyddio gydag adroddiadau eraill, i lunio'r strategaeth ariannol tymor canolig a'r gyllideb flynyddol. Bydd yr effaith ar anghenion hir dymor yr Ynys yn cael eu hasesu wrth osod y gyllideb flynyddol.

2. A ragwelir y bydd y penderfyniad hwn yn atal costau/dibyniaeth ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut?

Amherthnasol

3. A fuom yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, gyda phwy?

Amherthnasol

4. A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth gynllunio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae'r penderfyniad yn effeithio'n uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut.

Ymgynghorwyd â dinasyddion Ynys Môn fel rhan o broses gosod cyllideb 2026/27 ac ymgynghorir â nhw ynghylch cyllidebau yn y dyfodol.

5. Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Amherthnasol

6. Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar unrhyw un sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.

Amherthnasol

7. Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Amherthnasol

E - Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori a beth oedd eu sylwadau?

1. Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA) (gorfodol)	Mae'r TA wedi ystyried yr adroddiad yn ei gyfarfod ar 1 Medi 2026. Ymgorfforwyd sylwadau'r Prif Weithredwr ac aelodau eraill y TA yn y drafft terfynol.
2. Cyllid / Swyddog Adran 151	Y Swyddog Adran 151 yw awdur yr adroddiad.
3. Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol)	Mae'r Swyddog Monitro'n aelod o'r TA ac mae ei sylwadau wedi cael eu hystyried ynghyd â holl sylwadau aelodau'r TA.
4. AD	Nid yw'r materion yn yr adroddiad yn effeithio ar unrhyw faterion Adnoddau Dynol.
5. Eiddo	Amherthnasol
6. TG	Amherthnasol
7. Caffael	Amherthnasol
8. Sgriwtini	Fe wnaeth y Panel Sgriwtini Cyllid a'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ystyried sefyllfa ariannol y Cyngor mewn cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 3 Medi ac 16 Medi 2026.
9. Aelodau Lleol	Mae sefyllfa ariannol y Cyngor yn berthnasol i bob Aelod o'r Cyngor.

F - Atodiadau

- Atodiad A - Adroddiad Alldro Refeniw Dros Dro ar gyfer 2026/27
- Atodiad B - Tabl Alldro Dros Dro 2026/27
- Atodiad C - Dadansoddiad o'r Amrywiannau a Ragwelir fesul Gwasanaeth a'r Rheswm
- Atodiad CH - Crynodeb o sefyllfa Cyllidebau Wrth Gefn ar gyfer 2026/27
- Atodiad D - Gwybodaeth ynglŷn â monitro gwariant ar Staff Asiantaeth 2026/27
- Atodiad DD - Gwybodaeth ynglŷn â monitro gwariant ar Ymgynghorwyr 2026/27
- Atodiad E - Cost Newid 2026/27

Ff- Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am fwy o wybodaeth)

Cyllideb Refeniw 2026/27 (fel y'i hargymhellwyd gan y Pwyllgor hwn ar 24 Chwefror 2026 a'i mabwysiadu gan y Cyngor Sir ar 5 Mawrth 2026)

ADRODDIAD MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW

1. Y GYLLIDEB REFENIW A GYMERADWYWDYD AR GYFER 2026/27

1.1. Cymeradwydd y Cyngor gyllideb refeniw net ar gyfer 2026/27 fel a ganlyn:-

Tabl 1
Cyllideb a Chyllid a Gymeradwywyd ar gyfer 2026/27

	£'000	£'000
Cyfanswm Gwariant Refeniw a Gymeradwywyd	207,029	
Newidiadau ers Cymeradwyo'r Gyllideb	-	
Defnyddio Cronfeydd wrth Gefn y Cyngor	(1,685)	
Cyllideb Bresennol 2026/27 a Gymeradwywyd (heb gynnwys Cronfeydd wrth Gefn)		205,344
Cyllidwyd Gan:		
Cyllid Allanol Cyfun (CAC)	144,585	
Debyd Dreth Gyngor Safonol a Godwyd	55,998	
Premiwm y Dreth Gyngor ar Ail Gartrefi a Thai Gwag	4,761	
Cyfanswm Cyllid 2026/27		205,344

2. SEFYLLFA'R GYLLIDEB A RAGWELIR AR ALLDRO 2026/27

2.1. Mae'r alldro heb ei archwilio'n cael ei ddangos yn Nhabl 2, isod:-

Tabl 2
Crynodeb o'r Rhagolwg o'r Sefyllfa ar Ddiwedd y Flwyddyn ar 30 Mehefin 2026

	Cyllideb 2026/27	Alldro Ch 1 (Tan) / Gor Wariant	% Amrywiant
	£'000	£'000	%
Cyllidebau Gwasanaeth	186,805	(1,145)	(0.35%)
Cyllidebau Corfforaethol	20,224	(243)	(4.00%)
Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol	(1,685)	-	0.00%
Gwariant Refeniw Net	205,344	(1,388)	(0.68%)
Cyllid Allanol Cyfun (CAC)	144,585	-	0.00%
Y Dreth Gyngor Safonol	55,998	(3)	(0.01%)
Premiwm y Dreth Gyngor	4,761	(723)	(15.17%)
Cyllid Net	205,344	(726)	(0.35%)
Rhagolwg o'r (Tan) / Gorwariant Net	0	(2,114)	1.03%

2.2 Mae amcangyfrif o sefyllfa Balansau Cyffredinol y Cyngor i'w weld yn Nhabl 3 isod:-

Tabl 3
Amcangyfrif o Falansau Cyffredinol y Cyngor ar 31 Mawrth 2027

	Swm £'m	Sylwadau
Balans Agoriadol (Heb ei Archwilio)	(19.038)	Gweler adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith - Gorffennaf 2026 - Tabl 3
Cyllido Cyllideb Refeniw 2026/27	1.685	Yn unol â Phenderfyniad Cyllideb 2026/27 - Mawrth 2026
Trosglwyddwyd i Gronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig	(0.710)	Gweler adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith - Gorffennaf 2026
Trosglwyddwyd o Gronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig	2.373	Gweler adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith - Gorffennaf 2026
Dyrannwyd yn 2026/27	0.100	Yn unol â phenderfyniad y Pwyllgor Gwaith - Chwefror 2026
Sefyllfa Alldro a Ragwelir ar gyfer 2026/27	(2.114)	Gweler Tabl 2 uchod
Balans Cyffredinol Cronfa'r Cyngor Heb ei Archwilio ar 31 Mawrth 2027	(17.704)	

3. PERFFORMIAD ARIANNOL FESUL GWASANAETH

- 3.1.** Dengys y sefyllfa gyfun gyffredinol ar gyfer gwasanaethau'r Cyngor fod alldro o £1.145m yn cael ei ragweld ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Gwelir yn Nhabl 4, isod, ddadansoddiad fesul Gwasanaeth ac mae dadansoddiad manylach wedi'i gynnwys yn Atodiad B:-

Tabl 4
Dadansoddiad o'r Sefyllfa a Ragwelir ar gyfer y Gyllideb, fesul Gwasanaeth

	(Tan) / Gorwariant £'000	%
Addysg Ganolog	(152)	(2.74)
Gwasanaethau Oedolion	(744)	(1.64)
Priffyrdd	(285)	(3.29)
Eiddo	100	5.06
Digidol, Perfformiad a Phrofiad y Cwsmer	(386)	(6.17)
Busnes y Cyngor	151	6.24
Gwasanaethau Eraill (Amrywiadau o dan £100k)	171	
Cyfanswm Amrywiadau Gwasanaeth	(1,145)	(0.35)

- 3.2.** Mae'r amcangyfrif presennol yn rhagweld fod tanwariant yn y Gwasanaethau Oedolion ac mae disgwyl i bob maes gwasanaeth danwario er gwaetha'r ffaith fod y galw'n parhau i fod yn uwch. Y rheswm am hyn yw bod arbedion oherwydd swyddi gweigion, cyllid grant ychwanegol ac incwm uwch na'r disgwyl yn fwy na chost y galw ychwanegol.
- 3.3.** Rhagwelir i'r sefyllfa yn y Gwasanaethau Plant fod yn sylweddol well nag yn y blynyddoedd blaenorol ac, er bod cost lleoliadau allsirol yn parhau i fod yn uwch na'r gyllideb, mae swyddi gweigion a cyllid grant ychwanegol yn ddigon i wrthbwysu'r costau o'r cynnydd yn y galw.

- 3.4. Mae'r rhagolwg ar gyfer y gwasanaeth Digidol, Perfformiad a Moderneiddio'n parhau i ddangos lefel uchel o danwariant, er bod y ffigwr yn is nag mewn blynyddoedd a fu. Mae tanwariant oherwydd swyddi gweigion wedi gostwng yn sylweddol ac mae'r rhan fwyaf o'r tanwariant bellach yn gysylltiedig â chostau meddalwedd a thrwyddedau.
- 3.5. Mae'r prif resymau am yr amrywiadau'n cael eu crynhoi yn Nhabl 5, isod, ac mae dadansoddiad mwy manwl fesul Gwasanaeth ac Iswasanaeth wedi'i gynnwys yn Atodiad C:-

Tabl 5
Dadansoddiad o Amrywiadau a Ragwelir yn ôl Rheswm

	Amrywiant a Ragwelir yn Chwarter 1 £'000
Amrywiant mewn costau o ganlyniad i newid yn y galw am wasanaethau	1,044
Amrywiant mewn costau staffio oherwydd swyddi gweigion, net o gostau staff dros dro ychwanegol a staff asiantaeth	(452)
Newidiadau mewn prisiau contractau nad oedd y gyllideb a gymeradwywyd yn darparu ar eu cyfer	(51)
Newidiadau mewn cyllid grant sy'n cynyddu neu'n lleihau'r gofyn am gyllid o'r gyllideb graidd	(730)
Incwm o ffioedd a thaliadau sy'n (uwch) / is na'r targed incwm	(1,457)
Amrywiant mewn costau yn gysylltiedig ag adeiladau	(181)
Amrywiadau mewn costau yn gysylltiedig â chyflogi ymgynghorwyr allanol	104
Trosglwyddo cyllid i / (o) gronfeydd wrth gefn clustnodedig a balansau cyffredinol	512
Camgymeriadau amlwg yn y broses gosod cyllideb	197
Rhesymau amrywiol	(131)
CYFANSWM YR AMRYWIANNAU A RAGWELIR	(1,145)

- 3.6. Dengys y tabl uchod danwariant net o £1.145m ar draws pob gwasanaeth. Y materion canlynol sydd bennaf gyfrifol am y sefyllfa:-

- Incwm uwch na'r disgwyl, yn bennaf yn y meysydd gofal cymdeithasol oedolion, priffyrdd, cynllunio a hamdden, er y dylid nodi fod yr incwm ychwanegol ym maes gofal cymdeithasol oedolion yn gorbwyso'r cynnydd yn y galw a bydd y ffioedd cynllunio ychwanegol yn cael eu trosglwyddo i gronfa wrth gefn glustnodedig i gyllido costau ymdrin â cheisiadau cynllunio mawr yn y dyfodol.
- Arbedion staffio oherwydd swyddi gweigion ym maes gofal cymdeithasol oedolion a phlant, er bod y Gwasanaethau Cyfreithiol yn parhau i wynebu costau staff asiantaeth uwch. Rhyddhawyd £100k o'r balansau cyffredinol i wrthbwysu rhywfaint o'r costau (yn unol â phenderfyniad y Pwyllgor Gwaith ym mis Chwefror 2026). Gall y sefyllfa mewn perthynas â'r amrywiant hwn newid yn ystod y flwyddyn wrth i swyddi gael eu llenwi neu wrth i staff adael a chreu swyddi gweigion newydd.
- Mae cyllid grant ychwanegol, yn bennaf ym maes gofal cymdeithasol oedolion a phlant, yn golygu bod modd cyllido galw ychwanegol am wasanaethau a gellir cyllido costau craidd o'r grant yn hytrach na defnyddio'r gyllideb graidd.
- Mae galw am wasanaethau'n parhau i roi pwysau ar y gyllideb, unwaith, eto ym maes gofal cymdeithasol Oedolion a Phlant yn bennaf, yn ogystal â chynnal a chadw ffyrdd (wedi'i gyllido o'r incwm ychwanegol). Mae'r galw am brydau ysgol wedi gostwng, ac mae hyn yn creu arbedion yn y gyllideb.

3.7. Er bod nifer o wasanaethau’n profi pwysau ar gyllidebau sy’n cael eu harwain gan y galw, mae’r sefyllfa gyffredinol a ragwelir yn dangos, fod perfformiad ffafriol incwm, newidiadau mewn cyllid grant ac arbedion staffio yn lliniaru’r pwysau hyn i raddau sylweddol. Serch hynny, mae’r Awdurdod yn rhagweld tanwariant net o £1.145m yn Chwarter 1. Dylid nodi bod rhagweld y sefyllfa derfynol ar ddiwedd y flwyddyn yn anodd ar ddiwedd chwarter 1, a gall y sefyllfa newid yn sylweddol wrth i weddill y flwyddyn ariannol fynd rhagddi.

4. PERFFORMIAD ARIANNOL CYLLIDEBAU CORFFORAETHOL

4.1. Dangosir y sefyllfa ariannol a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ar gyfer Cyllidebau Corfforaethol yn Nhabl 6, isod:-

Tabl 6
Y Sefyllfa Ariannol a Ragwelir ar gyfer Cyllidebau Corfforaethol 2026/27

	Cyllideb 2026/27	Rhagolwg Aldro Ch1 (Tan) / Gorwariant	Amrywiant	Rheswm am yr Amrywiant
	£'000	£'000	%	
Ardollau	5,450	-	-	Benthycia is ac enillion uwch ar fuddsoddiadau Llai o achosion na’r disgwyl
Rhyddhad Trethi Dewisol	108	(22)	(22.33)	
Cyllido Cyfalaf	5,396	(127)	(2.35)	
Budd-daliadau a Roddir	7,826	(324)	(4.15)	
Costau nad oes cyllideb ar eu cyfer (Yswiriant, Costau Cyfalaf Pensiynau, Darpariaeth ar gyfer Drwg Ddyledion)	-	500	-	
Cyfraniad o’r CRT am Wasanaethau Cefnogi	(865)	-	-	
Cyllidebau ar gyfer digwyddiadau annisgwyl Cyffredinol ac Eraill, gan gynnwys Arbedion Corfforaethol	2,309	(270)	(11.96)	
Defnyddio Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol	(1,685)	-	-	
CYFANSWM	18,539	(243)	(1.31)	

5. CASGLU’R DRETH GYNGOR

5.1. Mae cyllideb Cronfa Gasglu’r Dreth Gyngor yn cael ei phenderfynu gan ddefnyddio amcangyfrif o’r ddyled y gellir ei chasglu ar gyfer y flwyddyn bresennol yn unig, yn seiliedig ar ffigwr sylfaen y dreth a bennwyd ym mis Tachwedd 2025. Nid yw’n caniatáu ar gyfer ôl-ddyledion o flynyddoedd blaenorol a gasglwyd, addasiadau i rwymedigaethau yn codi o flynyddoedd blaenorol (eithriadau, disgowntiau person sengl, trosglwyddo eiddo i drethi busnes ac ati), newidiadau yn sylfaen y dreth ar gyfer y flwyddyn gyfredol, neu ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg ac amheus. Ni ellir amcangyfrif y newidiadau hyn pan osodir y gyllideb ac, yn ddiethriad, maent yn arwain at wahaniaeth rhwng balans terfynol Cronfa Casglu’r Dreth Gyngor a’r gyllideb wreiddiol. Fel arfer, bydd yr incwm a ragwelir ar gyfer y Dreth Gyngor yn gostwng yn ystod y flwyddyn wrth i gamau adennill gael eu cymryd ac wrth i drethdalwyr hawlio eithriadau a disgowntiau sy’n ddyledus iddynt. Roedd incwm y Dreth Gyngor craidd cyfredol £3k yn uwch na’r gyllideb.

5.2. Dyluniwyd premiwm y Dreth Gyngor i annog perchnogion eiddo gwag ac ail gartrefi i ddychwelyd yr eiddo i ddefnydd cyffredinol ac, fel y cyfryw, mae risg y gallai nifer yr eiddo sy'n talu'r premiwm ostwng yn sylweddol yn ystod y flwyddyn. Er mwyn lliniaru'r risg hwn, gosodwyd sylfaen y dreth ar gyfer eiddo sy'n talu'r premiwm ar 80% ac, os nad yw nifer yr eiddo sy'n talu'r premiwm yn gostwng yn sylweddol, yna bydd y gyllideb yn cynhyrchu gwarged. Oherwydd bod y rheolau cymhwyso ar gyfer trethi busnes ar lety hunanarlwyo wedi newid, mae nifer o eiddo wedi cael eu trosglwyddo'n ôl i'r gofrestr Dreth Gyngor o'r gofrestr trethi busnes, felly, mae mwy o eiddo'n gymwys i dalu'r premiwm ar ail gartrefi. O ganlyniad, roedd elfen premiwm y Dreth Gyngor £723k yn uwch na'r gyllideb. Fodd bynnag, mae risg sylweddol y bydd apeliadau'n cael eu penderfynu yn 2026/27 a thu hwnt mewn perthynas ag eiddo hunanarlwyo a drosglwyddwyd o'r gofrestr trethi busnes i'r gofrestr Dreth Gyngor, gyda rhai wedi'u hôl-ddyddio i Ebrill 2023. Mae cronfa wrth gefn glustnodedig o £762k yn bodoli a chaiff ei defnyddio i gyllido costau unrhyw ad-daliadau y bydd rhaid eu gwneud os yw apêl y perchnogion yn llwyddo.

6. CYLLIDEBAU AR GYFER DIGWYDDIADAU ANNISGWYL

6.1. Cyfanswm y cyllidebau ar gyfer digwyddiadau annisgwyl gwreiddiol oedd £2.250m. Mae £1.980m o'r cyllidebau hyn wedi'u hymrwymo a'u rhagweld, gan adael £270k heb eu hymrwymo ar hyn o bryd. Fodd bynnag, bydd hyn yn newid wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi. Mae dadansoddiad llawn ynghlwm yn Atodiad Ch.

7. COSTAU ASiantaeth AC YMGYNGHORWYR

7.1. Yn ystod y flwyddyn hyd yma, gwariwyd £464k ar staff asiantaeth, gyda'r costau mwyaf yn gysylltiedig â Gwasanaethau Oedolion (£111k) ac Ysgolion (£102k), ac yna Gwastraff (£94k) a Busnes y Cyngor (£67k). Cyllidwyd y mwyafrif o'r costau o'r cyllidebau gwasanaeth presennol, gan gynnwys cyllidebau craidd, cyllidebau gwasanaeth penodol a chyllidebau staff heb eu defnyddio. Defnyddiwyd cronfeydd i gefnogi rhywfaint o wariant lle'r oedd hynny'n briodol.

7.2. Penodwyd staff asiantaeth er mwyn cynnal y ddarpariaeth gwasanaeth a gwytnwch gweithredol os nad oedd yr adnoddau staffio'n ddigonol i fodloni gofynion gwasanaeth. Roedd y prif resymau dros gyflogi staff asiantaeth yn cynnwys darpariaeth llanw ar gyfer swyddi gweigion, cefnogi trefniadau recriwtio ac anwytho ar gyfer gweithwyr newydd, mynd i'r afael â phwysau tymor byr ar wasanaethau a rheoli cyfnodau o absenoldebau salwch. Mewn nifer fechan o achosion, defnyddiwyd staff asiantaeth i ddarparu sgiliau arbenigol a chapasiti ychwanegol yr oedd ei angen i gyflawni darnau penodol o waith.

7.3. Gwariwyd cyfanswm o £163k ar Ymgynghorwyr yn ystod y flwyddyn ariannol, a chyllidwyd £94k o'r gwariant hwnnw gan grantiau neu o ffynonellau allanol. Mae Atodiad Dd yn cynnwys crynodeb llawn o wariant fesul gwasanaeth.

8. CRONFA COST NEWID

8.1. Gwariwyd £110k ar brosiectau unigol oedd yn cael eu cyllido o'r Gronfa Cost Newid, ac mae £207k o wariant wedi'i drosglwyddo i 2026/27. Mae dau o'r naw prosiect wedi'u cwblhau, ac mae 4 prosiect arall bron yn gyflawn, gydag adolygiadau prosiect yn cael eu cynnal i sicrhau fod pob prosiect yn cyflawni'r briff a'i fod wedi'i gwblhau'n unol â'r disgwyliadau. Nid yw tri o'r prosiectau wedi cychwyn eto. Mae manylion llawn wedi'u cynnwys yn Atodiad E.

9. CASGLIADAU

9.1. Mae sefyllfa monitro'r gyllideb refeniw ar ddiwedd Chwarter 1 yn rhagweld tanwariant o £2.114m (1.03%) erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2026/27. Ar hyn o bryd, rhagwelir tanwariant o £1.145m ar gyllidebau gwasanaeth, gyda thanwariant pellach ar gyllidebau corfforaeth ac incwm uwch na'r disgwyl Premiwm y Dreth Gyngor. Incwm uwch na'r disgwyl, arbedion ar swyddi gweigion, cyllid grant ychwanegol a symudiadau ffafriol o fewn y cyllidebau corfforaethol sydd bennaf gyfrifol am y rhagolwg cadarnhaol. Maent wedi gwrthbwysu pwysau sylweddol ar wasanaethau rheng flaen sy'n cael eu harwain gan y galw, yn enwedig Gwasanaethau Oedolion a Phlant.

- 9.2.** Er bod y rhagolwg presennol yn galonogol, asesiad cynnar o'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ydyw ac mae nifer o faterion yn creu ansicrwydd sylweddol. Mae'r galw am wasanaethau gofal cymdeithasol, cefnogaeth ddigartrefedd, cludiant ysgol a lleoliadau allsirol addysg yn parhau i greu risgiau ariannol, ynghyd ag effaith posibl dyfarniadau cyflog, heriau recriwtio a gwariant annisgwyl. Yn ogystal, gallai Premiwm y Dreth Gyngor fod yn destun apeliadau ac addasiadau yn y dyfodol.
- 9.3.** Os bydd y sefyllfa a ragwelir yn parhau, mae disgwyl i Falansau Cyffredinol y Cyngor gynyddu i £17.693m erbyn 31 Mawrth 2027, a pharhau i fod yn sylweddol uwch na'r isafswm sy'n cael ei argymhell. Ystyrir, felly, bod y sefyllfa ariannol gyffredinol yn sefydlog ar hyn o bryd, er y bydd angen parhau i gadw llygaid ar y sefyllfa, yn ogystal â rheolaeth ariannol ddarbodus, drwy gydol gweddill y flwyddyn ariannol i sicrhau fod risgiau sy'n dod i'r amlwg yn cael eu nodi a'u rheoli'n effeithiol.

ALLDRO REFENIW AR GYFER Y FLWYDDYN ARIANNOL YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2027
REVENUE OUTTURN FOR THE FINANCIAL YEAR ENDING 31 MARCH 2027

Gwasanaeth / Swyddogaeth Service / Function	2026/27 Cyllideb Flynyddol	2026/27 Ch1 Cyllideb hyd yma	2026/27 Ch1 Gwir Wariant ac Ymrwymadau	2026/27 Ch1 Amrywiant	2026/27 Ch1 Gwir Wariant ac Ymrwymadau	Ch1 Amcangyfrif Gwariant hyd at 31 Mawrth 2027 Q1 Estimated Expenditure to 31 March 2027	Ch1 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2027 gor / (tan) wariant Q1 Estimated Outturn 31 March 2027 over / (under)	2025/26 Gor / (tan) wariant a Ragwelir fel % o'r Gyllideb Gyfan Projected Over / (Under) spend as a % of Total Budget	2025/26 Gor/(Tan) Wariant Drafft Draft Over / (Under) spend
	£'000	£'000	£'000	£'000	%	£'000	£'000	%	£'000
<u>Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc</u> <u>Education, Skills and Young People</u>									
Cyllideb Ddatganoledig Ysgolion <i>Delegated Schools Budget</i>	66,179	13,389	13,389	-	0.00%	66,179	-	0.00%	0
Addysg Ganolog <i>Central Education</i>	5,541	2,221	2,160	(61)	(2.76%)	5,389	(152)	(2.74%)	(1,033)
Diwylliant <i>Culture</i>	1,657	379	536	157	41.45%	1,726	69	4.16%	30
<u>Gwasanaethau Oedolion</u> <u>Adult Services</u>	45,244	11,719	13,020	1,301	(11.10%)	44,500	(744)	(1.64%)	(873)
<u>Gwasanaethau Plant</u> <u>Children's Services</u>	18,670	5,474	5,547	73	1.33%	18,627	(43)	(0.23%)	1,337
<u>Tai</u> <u>Housing</u>	2,098	603	623	(20)	(3.45%)	2,082	(16)	(0.76%)	0
<u>Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff</u> <u>Highways, Property & Waste</u>									
Priffyrdd <i>Highways</i>	8,653	2,053	1,908	(145)	(7.08%)	8,368	(285)	(3.29%)	(188)
Eiddo <i>Property</i>	1,978	(725)	(630)	95	(13.11%)	2,078	100	5.06%	118
Gwastraff <i>Waste</i>	10,788	1,755	1,725	(30)	(1.73%)	10,803	15	0.14%	(41)

Gwasanaeth / Swyddogaeth Service / Function	2026/27 Cyllideb Flynyddol Annual Budget	2026/27 Ch1 Cyllideb hyd yma Q1 Budget Year to Date	2026/27 Ch1 Gwir Wariant ac Ymrwymadau Q1 Actual & Committed Spend	2026/27 Ch1 Amrywiant Q1 Variance	2026/27 Ch1 Gwir Wariant ac Ymrwymadau Q1 Actual & Committed Spend	Ch1 Amcangyfrif Gwariant hyd at 31 Mawrth 2027 Q1 Estimated Expenditure to 31 March 2027	Ch1 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2027 gor / (tan) wariant Q1 Estimated Outturn 31 March 2027 over / (under)	2025/26 Gor / (tan) wariant a Ragwelir fel % o'r Gyllideb Gyfan Projected Over / (Under) spend as a % of Total Budget	2025/26 Gor/(Tan) Wariant Drafft Draft Over / (Under) spend
	£'000	£'000	£'000	£'000	%	£'000	£'000	%	£'000
<u>Rheoleiddio a Datblygu Economaidd</u> <u>Regulation & Economic Development</u>									
Datblygu Economaidd <i>Economic Development</i>	2,768	857	1,151	294	34.34%	2,690	(78)	(2.82%)	(153)
Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd <i>Planning and Public Protection</i>	3,417	924	312	(612)	(66.25%)	3,569	152	4.45%	104
<u>AD, Cyfathrebu a Phrofiad y Cwsmer</u> <u>HR, Communications & Customer Experience</u>	2,432	680	694	14	2.06%	2,432	0	0.00%	(86)
<u>Digidol, Perfformiad a Moderneiddio</u> <u>Digital, Performance & Modernisation</u>	6,256	3,168	2,959	(209)	(6.60%)	5,870	(386)	(6.17)	(508)
<u>Adnoddau</u> <u>Resources</u>	4,113	1,145	1,206	61	5.40%	4,124	11	0.27%	3
<u>Busnes y Cyngor</u> <u>Council Business</u>	2,421	599	1,070	471	78.55%	2,572	151	6.24%	275
<u>Costau Corfforaethol a Democrataidd</u> <u>Corporate & Democratic costs</u>	3,712	1,318	1,343	25	1.88%	3,756	44	1.19%	98
<u>Rheolaeth Gorfforaethol</u> <u>Corporate Management</u>	878	219	215	(4)	(1.61%)	895	17	1.94%	(28)
Cyfanswm Cyllidebau Gwasanaeth Total Service Budgets	186,805	45,778	47,228	1,450	3.17%	185,660	(1,145)	(0.35%)	(945)
Ardollau <i>Levies</i>	5,450	5,367	5,367	-	0.00%	5,450	-	0.00%	4
Rhyddhad Trethi Dewisol <i>Discretionary Rate Relief</i>	108	0	0	0	0.00%	86	(22)	(20.33%)	77
Cyllido Cyfalaf <i>Capital Financing</i>	5,396	804	678	(126)	0.00%	5,269	(127)	(2.35)	(771)
Cyllidebau ar gyfer digwyddiadau annisgwyl Cyffredinol ac Eraill <i>General & Other Contingencies</i>	2,250	2,249	1,980	(269)	(11.96%)	1,980	(270)	(11.96%)	154

Gwasanaeth / Swyddogaeth Service / Function	2026/27 Cyllideb Flynyddol Annual Budget	2026/27 Ch1 Cyllideb hyd yma Q1 Budget Year to Date	2026/27 Ch1 Gwir Wariant ac Ymrwymadau Q1 Actual & Committed Spend	2026/27 Ch1 Amrywiant Q1 Variance	2026/27 Ch1 Gwir Wariant ac Ymrwymadau Q1 Actual & Committed Spend	Ch1 Amcangyfrif Gwariant hyd at 31 Mawrth 2027 Q1 Estimated Expenditure to 31 March 2027 £'000	Ch1 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2027 gor / (tan) wariant Q1 Estimated Outturn 31 March 2027 over / (under) £'000	2025/26 Gor / (tan) wariant a Ragwelir fel % o'r Gyllideb Gyfan Projected Over / (Under) spend as a % of Total Budget	2025/26 Gor/(Tan) Wariant Drafft Draft Over / (Under) spend
	£'000	£'000	£'000	£'000	%	£'000	£'000	%	£'000
Arbedion Cyllideb i'w Cyflawni <i>Budget Savings to be Achieved</i>	59	14	-	(14)	0.00%	59	-	0.00%	(29)
Cronfeydd wrth Gefn Cyffredinol y Cyngor <i>Council's General Reserves</i>	(1,685)	-	-	-	0.00%	(1,685)	-	0.00%	0
Cyfraniad gan y CRT am Wasanaethau Cefnogol <i>Support Services contribution HRA</i>	(865)	-	-	-	0.00%	(865)	-	0.00%	25
Budd-daliadau a Roddwyd <i>Benefits Granted</i>	7,826	462	2,602	2,140	463.75%	7,502	(324)	(4.15%)	(189)
Costau heb gyllideb ac na ellir eu rheoli: yswiriant, costau pensiwn a dileu drwg ddyledion / Iwfansau amhariad ar incwm gwasanaethau <i>Unbudgeted, uncontrollable costs: insurances, pension costs and bad debt write offs / impairment allowances on services' income</i>						500	500	0.00%	385
Cyfanswm Cyllid Corfforaethol Total Corporate Finance	18,539	8,896	10,627	1,731	19.46%	18,296	(243)	(4.00%)	(344)
Cyfanswm 2026/27 Total 2026/27	205,344	54,674	57,855	3,181	5.82%	203,956	(1,388)	(0.68)	(1,289)
Cyllido Funding									
Trethi Annomestig <i>NDR</i>	(24,081)	(7,410)	(7,410)	-	0.01%	(24,081)	-	0.00%	0
Y Dreth Gyngor <i>Council Tax</i>	(55,998)	-	-	-	0.00%	(56,001)	(3)	0.01%	(119)
Premiwm y Dreth Gyngor <i>Council Tax Premium</i>	(4,761)	-	-	-	0.00%	(5,484)	(723)	15.17%	(1,212)
Grant Cynnal Refeniw <i>Revenue Support Grant</i>	(120,504)	(37,108)	(37,108)	-	0.00%	(120,504)	-	0.00%	0
Cyfanswm Cyllid 2026/27 Total Funding 2025/26	(205,344)	(44,518)	(44,518)	-	0.00%	(206,070)	(726)	(0.35%)	(1,331)
Cyfanswm yr alldro, yn cynnwys effaith y cyllido Total outturn, including impact of funding	0	10,156	13,337	3,181	31.32%	(2,114)	(2,114)	1.03%	(2,620)

DADANSODDIAD O'R AMRYWIADAU A RAGWELIR FESUL GWASANAETH A'R RHESYMAU

Gwasanaeth	Iswasanaeth	Amrywiant	Rheswm am yr Amrywiant									
			Newid yn y galw am wasanaeth	Staff / Asiantaeth Amrywiannau	Newidia dau mewn Prisïau neu Contract	Newidiadau mewn Cyllid Grant	Amrywiant mewn Incwm	Costau Adeiladau	Costau Ymgynghor wyr	Trosglwyddo I / (O) Gronfeydd wrth Gefn	Gor / Tan Ddarpariaeth yn y Gyllideb	Amrywiol
		£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Addysg Ganolog	Cludiant Ysgol	2	2	-	-	-	-	-	-	-	-	-
	Prydau Ysgol	(232)	(232)	-	-	-	-	-	-	-	-	-
	Strategaeth ADY	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
	Eithriadau Ysgolion	(15)	-	13	-	-	-	(30)	-	-	-	2
	Canolfan Iaith	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
	Darpariaeth Blynnyddoedd Cynnar	(29)	-	(22)	-	-	-	-	-	-	-	(7)
	Clwb Gofal Plant	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
	Addysg Bellach	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
	Addysg Ganolog	107	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
	Lleoliadau Allsirol	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
	Millbank	25	-	-	-	-	8	17	-	-	-	-
	Eraill	(10)	-	(10)	-	-	-	-	-	-	-	-
	CYFANSWM	(152)	(230)	(19)	-	-	8	(13)	-	-	107	(5)
Diwylliant	Amgueddfeydd ac Oriolau	85	-	-	-	-	20	15	-	-	-	50
	Llyfrgelloedd	(21)	-	(36)	-	-	15		-	-	-	-
	Archifau	5	-	-	-	-	(5)	10	-	-	-	-
	CYFANSWM	69	-	(36)	-	-	30	25	-	-	-	50
Gwasanaethau Oedolion	Yr Henoed - Preswyl	146	550	-	-	-	(404)	-	-	-	-	-
	Yr Henoed - Nyrsio	(224)	(78)	-	-	-	(146)	-	-	-	-	-
	Yr Henoed - Gofal Cartref	56	56	-	-	-		-	-	-	-	-
	Yr Henoed - Arall	(118)	(3)	15	-	(100)		-	-	-	-	-
	Anableddau Corfforol - Preswyl	(47)	(43)	-	-	-	(4)	-	-	-	-	-

Gwasanaeth	Iswasanaeth	Amrywiant	Rheswm am yr Amrywiant									
			Newid yn y galw am wasanaeth	Staff / Asiantaeth Amrywiannau	Newidia dau mewn Prisiau neu Gontract	Newidiadau mewn Cyllid Grant	Amrywiant mewn Incwm	Costau Adeiladau	Costau Ymgynghorwyr	Trosglwyddo l / (O) Gronfeydd wrth Gefn	Gor / Tan Ddarpariaeth yn y Gyllideb	Amrywiol
		£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwasanaethau Oedolion (parhad)	Anabledau Corfforol - Gofal Cartref	(1)	(1)	-	-	-	-	-	-	-	-	-
	Anabledau Corfforol - Arall	40	-	40	-	-	-	-	-	-	-	-
	Anabledau Dysgu - Preswyl	(271)	(271)	-	-	-	-	-	-	-	-	-
	Anabledau Dysgu - Gofal Cartref	20	20	-	-	-	-	-	-	-	-	-
	Anabledau Dysgu - Gofal Dydd	69	69	-	-	-	-	-	-	-	-	-
	Anabledau Dysgu - Llety â Chefnogaeth	(2)	(2)	-	-	-	-	-	-	-	-	-
	Anabledau Dysgu - Arall	(38)	73	(111)	-	-	-	-	-	-	-	-
	Iechyd Meddwl - Preswyl	(28)	(30)	-	-	-	2	-	-	-	-	-
	Iechyd Meddwl - Gofal Cartref	(25)	(25)	-	-	-	-	-	-	-	-	-
	Iechyd Meddwl - Llety â Chefnogaeth	(21)	(21)	-	-	-	-	-	-	-	-	-
	Iechyd Meddwl - Arall	(80)	(31)	(49)	-	-	-	-	-	-	-	-
	Uned Ddarparu - Preswyl	161	21	140	-	-	-	-	-	-	-	-
	Uned Ddarparu - Gofal Cartref	(82)	(7)	(75)	-	-	-	-	-	-	-	-
	Uned Ddarparu - Gofal Dydd	(41)	20	(61)	-	-	-	-	-	-	-	-
	Uned Ddarparu - Llety â Chefnogaeth	(88)	(19)	(69)	-	-	-	-	-	-	-	-
	Uned Ddarparu - Arall	(40)	(14)	(26)	-	-	-	-	-	-	-	-
	Gwasanaethau Cefnogi Rheoli	(130)	27	18	-	(175)	-	-	-	-	-	-
	CYFANSWM	(744)	291	(208)	-	(275)	(552)	-	-	-	-	-

Gwasanaeth	Iswasanaeth	Amrywiant	Rheswm am yr Amrywiant									
			Newid yn y galw am wasanaeth	Staff / Asiantaeth Amrywiannau	Newidia dau mewn Prisiau neu Gontract	Newidiadau mewn Cyllid Grant	Amrywiant mewn Incwm	Costau Adeiladau	Costau Ymgynghorwyr	Trosglwyddo l / (O) Gronfeydd wrth Gefn	Gor / Tan Ddarpariaeth yn y Gyllideb	Amrywiol
		£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwasanaethau Plant	Plant Mewn Gofal - Lleoliadau Allsirol	289	289	-	-	-	-	-	-	-	-	-
	Gofal Maeth	111	111	-	-	-	-	-	-	-	-	-
	Cartrefi Clyd	(468)	(20)	(60)	-	(388)	-	-	-	-	-	-
	Plant Mewn Gofal - Arall	272	272	-	-	-	-	-	-	-	-	-
	Cefnogaeth i Deuluoedd	87	87	-	-	-	-	-	-	-	-	-
	Plant ag Anableddau	(156)	35	(191)	-	-	-	-	-	-	-	-
	Comisiynu a Gwaith Cymdeithasol	(5)	34	(39)	-	-	-	-	-	-	-	-
	Gwasanaethau Ieuenctid	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
	Arall	(173)	(16)	(157)	-	-	-	-	-	-	-	-
	CYFANSWM	(43)	792	(447)	-	(388)	-	-	-	-	-	-
Tai	Gwasanaethau Tai	43	-	25	-	-	-	-	-	-	-	18
	Digartrefedd	(60)	-	-	-	-	-	-	-	-	-	(60)
	Canolfan J.E. O'Toole	1	-	(1)	-	-	-	-	-	-	-	2
	CYFANSWM	(16)	-	24	-	-	-	-	-	-	-	(40)
Prifffyrdd	Prifffyrdd - Cefnogaeth a Rheolaeth	(40)	(20)	(20)	-	-	-	-	-	-	-	-
	Cludiant Cymunedol Môn	(50)	(50)	-	-	-	-	-	-	-	-	-
	Meysydd Parcio a Rheoli Parcio	(60)	-	-	-	-	(60)	-	-	-	-	-
	Rheoli Datblygu	(30)	-	-	-	-	(30)	-	-	-	-	-
	Gwaith Stryd Preifat	(300)	-	-	-	-	(300)	-	-	-	-	-
	Cyllideb Gwaith	295	295	-	-	-	-	-	-	-	-	-
	Cynnal a Chadw a Rheoli	10	10	-	-	-	-	-	-	-	-	-
	Dylunio Gwaith Cynnal a Chadw	(50)	-	-	-	-	(50)	-	-	-	-	-
	Trafnidiaeth Gyhoeddus	(60)	(10)	-	-	-	(50)	-	-	-	-	-

Gwasanaeth	Iswasanaeth	Amrywiant	Rheswm am yr Amrywiant									
			Newid yn y galw am wasanaeth	Staff / Asiantaeth Amrywiannau	Newidia dau mewn Prisiau neu Gontract	Newidiadau mewn Cyllid Grant	Amrywiant mewn Incwm	Costau Adeiladau	Costau Ymgynghorwyr	Trosglwyddo I / (O) Gronfeydd wrth Gefn	Gor / Tan Ddarpariaeth yn y Gyllideb	Amrywiol
		£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Priffyrdd (parhad)	Fflyd	-	-	-	-	-		-	-	-	-	-
	CYFANSWM	(285)	225	(20)	-	-	(490)	-	-	-	-	-
Eiddo	Ystadau	101	-	-	-	-	45	54	-	-	-	2
	Glanhau	20	-	-	-	-			-	-	-	20
	Cynnal a Chadw	(99)	-	-	-	-		(116)	-	-	-	17
	Gwasanaethau Pensaernïol	78	-	-	-	-	78		-	-	-	
	CYFANSWM	100	-	-	-	-	123	(62)	-	-	-	39
Gwastraff	Casglu a Gwaredu Gwastraff	(70)	-	-	(70)	-	-	-	-	-	-	-
	Cynhyrchu Trydan	50	-	-	-	-	50	-	-	-	-	-
	Ailgylchu	50	-	-	50	-	-	-	-	-	-	-
	Gweinyddu a Rheoli	(15)	(5)	-	(10)	-	-	-	-	-	-	-
	CYFANSWM	15	(5)	-	(30)	-	50	-	-	-	-	-
Datblygu Economaidd	Datblygu Economaidd	27	-	(35)	-	-	62	-	-	-	-	-
	Cyrchfan	(20)	-	-	-	-	(10)	-	-	-	-	(10)
	Hamdden	(85)	-	66	-	-	(100)	(131)	-	-	-	80
	CYFANSWM	(78)	-	31	-	-	(48)	(131)	-	-	-	70
Cynllunio	Gweinyddu Cynllunio	1	-		-	-	-	-	-	-	-	1
	Rheoli Cynllunio	(6)	-	24	-	-	(716)	-	40	646	-	
	Rheolaeth Adeiladu	158	-	119	-	-	56	-	-	-	-	(17)
	Polisi Cynllunio	(51)	-	(50)	-	-	-	-	-	-	-	(1)
	Cadwraeth	8	-	8	-	-	-	-	-	-	-	-
	Cofrestrfa Tir	(21)	-	-	-	-	(21)	-	-	-	-	-
	CYFANSWM	89	-	101	-	-	(681)	-	40	646	-	(17)

Gwasanaeth	Iswasanaeth	Amrywiant	Rheswm am yr Amrywiant									
			Newid yn y galw am wasanaeth	Staff / Asiantaeth Amrywiannau	Newidia dau mewn Prisiau neu Gontract	Newidiadau mewn Cyllid Grant	Amrywiant mewn Incwm	Costau Adeiladau	Costau Ymgynghorwyr	Trosglwyddo l / (O) Gronfeydd wrth Gefn	Gor / Tan Ddarpariaeth yn y Gyllideb	Amrywiol
		£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwarchod y Cyhoedd	Iechyd yr Amgylchedd	50	-	-	-	-	50	-	-	-	-	-
	Rheoli Cŵn / Plâu	(3)	(1)	-	-	-	(2)	-	-	-	-	-
	Iechyd Anifeiliaid	12	-	-	-	-	(9)	-	-	-	-	-
	Safonau Masnach	37	-	-	-	-	1	-	-	-	-	21
	Trwyddedu	(5)	(14)	-	-	-	9	-	-	-	-	36
	Cofrestryddion	(46)	-	(17)	-	-	(29)	-	-	-	-	-
	Marchnadoedd	24	4		-	-	20	-	-	-	-	-
	Iechyd a Diogelwch	(6)	-	(6)	-	-	-	-	-	-	-	-
	CYFANSWM	63	(11)	(23)	-	-	40	-	-	-	-	57
AD, Cyfathrebu a Phrofiad y Cwsmer	Adnoddau Dynol	10	-	21	-	-	-	-	-	-	-	-11
	Hyfforddiant	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
	Cyfathrebu	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
	Cyswllt Môn	(10)	-	(10)	-	-	-	-	-	-	-	-
	CYFANSWM	-	-	11	-	-	-	-	-	-	-	(11)
Digidol, Perfformiad a Moderneiddio	Digidol	(325)	-	(31)	-	(20)	-	-	-	-	-	(274)
	Perfformiad a Moderneiddio	(61)	-	(34)	-	(27)	-	-	-	-	-	-
	CYFANSWM	(386)	-	(65)	-	(47)	-	-	-	-	-	(274)
Adnoddau	Archwilio a Risg	(10)	-	(47)	-	-	-	-	37	-	-	-
	Budd-daliadau a Refeniw	54	-	30	-	(20)	-	-	-	(8)	-	52
	Gwasanaethau Ariannol	18	-	18	-	-	-	-	-	-	-	-
	Rheolaeth	27	-	4	-	-	-	-	27	(8)	-	4
	Caffael	(78)	-	(28)	-	-	20	-	-	(18)	-	(52)
	CYFANSWM	11	-	(23)	-	(20)	20	-	64	(34)	-	4

Gwasanaeth	Iswasanaeth	Amrywiant	Rheswm am yr Amrywiant									
			Newid yn y galw am wasanaeth	Staff / Asiantaeth Amrywiannau	Newidiau mewn Prisïau neu Gontract	Newidiadau mewn Cyllid Grant	Amrywiant mewn Incwm	Costau Adeiladau	Costau Ymgynghorwyr	Trosglwyddo I / (O) Gronfeydd wrth Gefn	Gor / Tan Ddarpariaeth yn y Gyllideb	Amrywiol
		£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Busnes y Cyngor	Gwasanaethau Etholiadol	(14)	-	(14)	-	-	-	-	-	-	-	-
	Cynllunio at Argyfwng	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
	Gwasanaethau Pwyllgor	(18)	-	(26)	-	-	-	-	-	-	-	8
	Cyfieithu	4	-	4	-	-	-	-	-	-	-	-
	Gwasanaethau Cyfreithiol	179	-	236	-	-	43	-	-	(100)	-	-
	CYFANSWM	151	-	200	-	-	43	-	-	(100)	-	8
Rheolaeth Gorfforaethol	Rheolaeth Gorfforaethol	17	-	17	-	-	-	-	-	-	-	-
	CYFANSWM	17	-	17	-	-	-	-	-	-	-	-
Corfforaethol a Democrataidd	Risg ac Yswiriant	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
	Cyfraniadau Pensiwn	5	-	5	-	-	-	-	-	-	-	-
	Ffioedd Archwilio	(21)	-	-	(21)	-	-	-	-	-	-	-
	Crwneriaid a CLILC	(22)	(18)	-	-	-	-	-	-	-	-	(4)
	Ardoll Prentisiaethau	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
	Partneriaeth Ynys Môn / Gwynedd	14	-	-	-	-	-	-	-	-	-	14
	Treuliau a Chefnogaeth i Aelodau	(22)	-	-	-	-	-	-	-	-	-	(22)
	Gwariant Dinesig	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
	Corfforaethol - Arall	90	-	-	-	-	-	-	-	-	90	-
	CYFANSWM	44	(18)	5	(21)	-	-	-	-	-	90	(12)
	CYFANSWM GWASANAETHAU	(1,145)	1,044	(452)	(51)	(730)	(1,457)	(181)	104	512	197	(131)

CRYNODEB O ALLDRO CYLLIDEBAU AR GYFER DIGWYDDIADAU ANNISGWYL

	Cyllideb Wreiddiol	Trosglwyddiadau (i) Linellau Gwasanaeth / o Gronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig	Wedi'i Ymrwymo Blwyddyn hyd yma	Cyllidebau heb eu Hymrwymo hyd yma
	£	£	£	£
Cyllideb ar gefn digwyddiadau annisgwyl Gyffredinol	353,036		83,944	269,092
Cymorth Tai i Brynwyr Tro Cyntaf	1,050,000	-	1,050,000	-
Cyflogau a Graddio	300,000	-	300,000	-
Cronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig Eraill	206,250	-	206,250	-
Cynllun Hyfforddeion	340,000	-	340,000	-
Cyfanswm Cyllidebau ar gyfer digwyddiadau annisgwyl Gyffredinol ac Eraill	2,249,286	-	1,980,194	269,092

ATODIAD D

COSTAU ASiantAETH EBRILL 2026 - MEHEFIN 2026

Gwasanaeth	Swm £	Ffynhonnell y Cyllid (Cyllideb Graidd Benodol / Cyllideb staffio heb ei defnyddio / Grant / Cyfraniad Allanol)	Parhaol / Dros Dro	Pwrpas
Economaid ac Adfywio	12,746	Cyllideb Graidd	Dros Dro	Llenwi swydd wag
	18,455	Cyllideb Graidd	Dros Dro	Ôl-groniad gwaith
	31,200			
Ysgolion	101,609	Cyllideb Graidd	Dros Dro	Athrawon llanw
	101,609			
Gwastraff	94,001	Cyllideb Graidd Benodol	Dros Dro	Tasgau Penodol ar y Safle
	94,001			
Busnes y Cyngor	29,374	Cyllideb staffio heb ei defnyddio a balansau cyffredinol y Cyngor	Dros Dro	Llenwi swyddi gweigion
	2,900	Cyllideb staffio heb ei defnyddio a chronfeydd wrth gefn	Dros Dro	Llenwi swydd wag ac yna cefnogi'r deiliaid swydd parhaol newydd
	16,872	Cronfeydd Wrth Gefn	Dros Dro	Cefnogi deiliaid swydd newydd
	17,428	Cyllideb staffio heb ei defnyddio a chronfeydd wrth gefn	Dros Dro	Llenwi swydd wag
	66,573			
Gwasanaethau Plant	21,323	Cyllideb Graidd	Dros Dro	Llenwi swydd wag
	21,323			
Gwasanaethau Oedolion	111,558	Cyllideb Graidd		Llenwi swydd wag
	111,558			
Adnoddau	11,899	Cyllideb staffio heb ei defnyddio	Dros Dro	Llenwi swydd wag a throsglwyddo i'r deiliaid swydd newydd
	9,669	Cyllideb staffio heb ei defnyddio	Dros Dro	Swyddog Cymorthdaliadau Dros Dro
	3,238	Cronfeydd Wrth Gefn	Dros Dro	Uwch Asiant Adennill Refeniw Dros Dro
	9,447	Cyllideb staffio heb ei defnyddio	Dros Dro	Staff dros dro yn ystod absenoldebau salwch
	3,113	Cyllideb staffio heb ei defnyddio	Dros Dro	Cwblhau archwiliad mewnol o system ariannol
	37,365			
Cyfanswm	463,629			

CRYNODEB O WARIANT AR YMGYNGHORWYR CHWARTER 1 2026/27

Gwasanaeth	Chwarter 1 £	Cyfanswm 2026/27 £
Addysg Ganolog	12,560	46,122
Diwylliant	0	0
Economaidd ac Adfywio	118,408	1,082,399
Eiddo	0	4,405
Priffyrdd	0	222,271
Ysgolion	0	4,600
Gwastraff	4,722	56,897
CRT	0	31,623
Tai	0	0
Corfforaethol a Democrataidd	0	3,200
Gwasanaethau Oedolion	0	0
Gwasanaethau Plant	0	0
Corfforaethol	0	0
Trawsnewid	0	0
Busnes y Cyngor	3,000	0
Adnoddau	24,040	67,224
Cyfanswm	162,730	1,518,741
Cyllidwyd Gan:		
Cyllideb Graidd	68,669	552,906
Grant	84,921	102,380
Cyfraniad Allanol	9,140	728,235
Cronfeydd wrth Gefn / Darpariaethau	0	135,220
Cyfanswm	162,730	1,518,741

CRYNODEB O WARIANT Y GRONFA COST NEWID AR ALLDRO 2026/27

Gwasanaeth / Service	Disgrifiad / Description	Cyllideb / Budget	Gwariant / Expenditure	Cyllideb sy'n cael ei dwyn ymlaen i 2026/27 / Budget Carried Forward to 2026/27	Diweddariad Prosiect / Project Update
		£	£	£	
Adnoddau Resources	Gweithredu System Telesolutions i gysylltu gyda chwsmeriaid y Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau / Implement Telesolutions system to contact customers of the Revenue and Benefits Service	4,500	0	4,500	Nid yw'r gwaith yma wedi dechrau eto, mae gwaith Citizen Access angen ei gwblhau yn gyntaf. / This work has not yet started, work on Citizens Access needs to be completed first.
Adnoddau Resources	Cefnogaeth gan Ymgynghorwyr o'r Cwmni Meddalwedd i wneud defnydd llawn o'r modiwlau ad-ennill dyledion ac i weithredu'r modiwlau bilio blynyddol / Support from Software Company Consultants to make full use of the debt recovery modules and to implement the annual billing modules	21,000	21,000	0	Mae'r gwaith ar y modiwlau hyn wedi ei gwblhau bellach. / Work has now been completed on these modules.
Adnoddau Resources	Gweithredu modiwlau ychwanegol yn y System Casglu Incwm / Implement additional modules in the Income Collection System	8,370	8,370	0	Mae'r gwaith ar y modiwlau hyn wedi ei gwblhau bellach. / Work has now been completed on these modules.

Gwasanaeth / Service	Disgrifiad / Description	Cyllideb / Budget	Gwariant / Expenditure	Cyllideb sy'n cael ei dwyn ymlaen i 2026/27/ Budget Carried Forward to 2026/27	Diweddariad Prosiect / Project Update
Plant Children	Defnyddio Microsoft Co-Pilot i gofnodi cyfarfodydd achosion yn y Gymraeg a'r Saesneg / Use Microsoft Co-Pilot to Minute Case Conference meetings in both Welsh and English	32,640	27,195	5,445	Tra'r oedd gwaith yn cael ei wneud ar ddatblygu'r achosion defnydd, mae'r rhagofynion technegol sydd eu hangen er mwyn defnyddio CoPilot yn effeithiol wedi'u cwblhau. Mae'r rhain yn cynnwys creu sianel Amllder Diweddariad "Office" newydd a'r ffurfwedd cysylltiedig, a grŵp i ddosrannu'r trwyddedau yn ddeinamig. Mae profion ar gywirdeb trawsgrifio a'i allu i wahaniaethu rhwng cynnwys Saesneg a Chymraeg wedi nodi problemau sylweddol o ran cywirdeb y trawsgrifio, ac mae hyn yn codi cwestiynau ynghylch pa mor effeithiol ydi o ar gyfer tasgau trawsgrifio. Mae'r pryderon hyn wedi cael eu trosglwyddo i Dîm Cyfrif Cymraeg a'r Tîm Rheoli Cynnyrch Microsoft. Mae profion gan swyddogion wedi nodi bod y dechnoleg yn cyflawni ymchwil yn effeithiol, yn cyfuno canfyddiadau ac yn creu drafftiau o ddogfennau. Mae'r tîm prosiect yn adolygu'r canfyddiadau, gyda'r bwriad o argymhell newid amcanion y prosiect a chanolbwyntio fwy ar lwyth gwaith gweinyddol ar draws amryw o wasanaethau. / <i>While work was being undertaken on developing the use-cases, the technical pre-requisites required to deploy CoPilot effectively have been completed. These include creating a new Office Update Frequency channel and the associated configuration, and a group to dynamically assign the licenses. Testing of the transcription accuracy and it's ability to discern English and Welsh content has identified significant issues with transcript accuracy, putting its effectiveness into question for transcription tasks. These concerns have been relayed to Microsoft's Welsh Account and Product Management teams. Officer testing has identified the technology effectively undertakes research, compiles findings and generates draft documents. The project team is reviewing the findings, with a view to recommending altering the project aims and re-focusing on administrative workloads across a variety of services.</i>

Gwasanaeth / Service	Disgrifiad / Description	Cyllideb / Budget	Gwariant / Expenditure	Cyllideb sy'n cael ei dwyn ymlaen i 2026/27/ Budget Carried Forward to 2026/27	Diweddariad Prosiect / Project Update
Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo <i>Highways, Waste and Property</i>	Cynnal adolygiad o drefniadau cludiant ar draws y Cyngor cyfan / Undertake a review of the Council's transport arrangements across the whole Council	40,000	37,357	2,643	Mae'r ymgynghorwyr wedi cwblhau eu adroddiad. Bydd angen cytuno ar y ffordd ymlaen yn dilyn hynny. / The consultants have completed their report. Following this, a way forward will need to be agreed.
Hamdden <i>Leisure</i>	Peiriannau "Chip a Pin" i'w ddefnyddio gan y Wardeiniaid Traeth / Chip and Pin Machines for use by Beach Wardens	15,340	10,628	4,712	System newydd yn weithredol o Basg 2026 a bydd gweddill y costau'n daladwy. / New system became live from Easter 2026 and remainder of the costs will be payable.
Cyrchfan <i>Destination</i>	System Dosbarthu Tanwydd Harbwr Amlwch / Fuel Dispensing System Amlwch Harbour	8,000	5,929	2,017	Mae'r gwaith diweddarau wedi'i gwblhau. Disgwyl cadarnhâd bod y system ddiwygiedig yn bodloni'r gofynion. / Upgrade work has been completed. Awaiting confirmation that the revised system meets the requirements.
Gwarchod y Cyhoedd <i>Public Protection</i>	System Rheoli Achosion Gwarchod y Cyhoedd / Public Protection Case Management System	150,000	0	150,000	Nid yw'r gwaith yma wedi dechrau eto. / This work has not yet started.
Tai <i>Housing</i>	Modiwl Digartrefedd - System Orchard Tai / Homeless Module - Orchard Housing System	37,950	0	37,950	Nid yw'r gwaith yma wedi dechrau eto. / This work has not yet started.
CYFANSWM / TOTAL		317,800	110,479	207,321	